

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y sefyllfa ar hyn o
bryd -

Pa mor hygyrch yw
eich clwb?

Mynediad i bobl anabl i

feysydd Clybiau'r Uwch

Gynghrair

Ebrill 2017



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	3
Crynodeb o ganfyddiadau	5
Camau nesaf	7
Canfyddiadau manwl	9
Isafswm gofodau cadair olwyn wedi'i ddiwallu	12
Cynnig dewis o seddi – diwallu gofyniad ochr y maes	12
Isafswm seddi amwynder a mynediad hawdd wedi'i ddiwallu	13
Diwallu'r gymhareb 1:15 ar gyfer toiledau hygyrch	17
Darparu cyfleusterau Lleoedd Newid	18
Darparu ystafell synhwyrdd	18
Datganiad mynediad anabledd	19
Dyddiadau archwiliadau mynediad yn y 10 mlynedd diwethaf	20
Atodiad 1: Llythyr i glybiau'r Uwch Gynghair	22
Cysylltiadau	28

Cyflwyniad

Sefydlwyd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ('y Comisiwn') o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae ganddo ddyletswydd statudol i weithio tuag at gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail, oedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, a chyfeiriadedd rhywiol. Dyma'r nodweddion a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf'). O dan y Ddeddf, fel darparwyr o wasanaethau i'r cyhoedd, mae gan glybiau pêl-droed ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau positif, y cyfeirir atyn nhw fel 'addasiadau rhesymol', i sicrhau y gall pobl anabl gyrchu eu gwasanaethau.

Cefndir

Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n mynnu bod clybiau'n gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl yn newydd. Mae'r gyfraith wedi mynnu bod clybiau'n gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl ers 1999, a daeth elfen derfynol y ddyletswydd hon i rym yn 2004. Codwyd pryderon eang â'r Comisiwn dros nifer o flynyddoedd ynghylch hygyrchedd stadia clybiau'r Uwch Gynghrair. Daeth y pryderon hyn oddi wrth gefnogwyr unigol ag anableddau ac oddi wrth sefydliadau cynrychioliadol.

Mae Adran 20 y Ddeddf yn cyflwyno'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Mae'r Ddeddf yn diffinio methiant i wneud addasiadau rhesymol fel math o wahaniaethu anghyfreithlon. Er ei fod yn anghyfreithlon i ddarparwyr gwasanaeth wahaniaethu yn erbyn pobl anabl mewn nifer o ffyrdd, mae'r ddyletswydd o dan adran 20 yn arbennig o berthnasol o ran mynediad ar gyfer cefnogwyr anabl o bêl-droed. Mae'n galw ar ddarparwyr gwasanaeth i ragweld anghenion cwsmeriaid anabl posibl, sy'n golygu y dylent ystyried o flaen llaw pa addasiadau rhesymol fydd yn galluogi mynediad ar gyfer cefnogwyr anabl. Ni ddylai clybiau aros tan fod cefnogwr anabl yn gofyn i addasiad rhesymol gael ei wneud.

O gofio cyfoeth sylweddol y mwyafrif o glybiau yn yr Uwch Gynghrair byddem yn disgwyl eu bod wedi cymryd camau arwyddocaol yn ystod y 18 blwyddyn ddiwethaf i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u goblygiadau cyfreithiol.

Er mwyn cynorthwyo clybiau tuag at ddod yn fwy hygyrch cyhoeddwyd y [Canllaw i Stadia Hygyrch](#) (ASG) yn 2003 ac fe'i diweddarwyd yn Awst 2015 ynghylch dyletswyddau clybiau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi cyfarwyddyd ar y ddarpariaeth o seddi amwynder a mynediad hawdd (AEA), cyfleusterau Lleodedd Newid, toiledau a gwasanaethau hygyrch, ar dynnu rhwytrau synhwyraidd i ffwrdd ac ar archwiliadau a chynlluniau mynediad.

Yn Awst 2015, fe wnaeth holl glybiau'r Uwch Gynghrair ymrwymo i sicrhau, erbyn Awst 2017, y byddent yn diwallu'r safonau a gyflwynir yn yr ASG. Roedd yr addewid hon yn wirfoddol, ond hefyd mae gan glybiau oblygiadau cyfreithiol o dan y Ddeddf. Rydym yn dal i boeni, erbyn dechrau'r tymor 2017-18 na fydd yr holl glybiau yn yr Uwch Gynghrair yn diwallu eu goblygiadau cyfreithiol.

Yn Rhagfyr 2016, fe wnaeth y Comisiwn ysgrifennu at bob un o'r 20 clwb yn yr Uwch Gynghrair i ofyn am wybodaeth ynghylch y camau roeddynt wedi'u cymryd i ddiwallu eu goblygiadau cyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol. Roedd y llythyr (gweler Atodiad 1) yn gofyn am wybodaeth ar hygyrchedd cyfredol eu maes a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, megis tocynnau a stiwardiaid, a chludiant i ac o'r stadiwm, gan gynnwys parcio ceir. Hefyd fe wnaethom ofyn iddynt rannu gyda ni unrhyw gynlluniau i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau a mynediad ar gyfer cefnogwyr anabl dros y ddwy flynedd nesaf. Fe wnaeth pob clwb ddychwelyd yr wybodaeth inni erbyn y terfyn amser o 10 Chwefror 2017. Mae'r Comisiwn wedi gwneud asesiad yn seiliedig ar yr wybodaeth hon. Dylid nodi bod yr asesiad hwn yn adlewyrchu ciplun mewn amser a bod llawer o waith yn cael ei wneud gan glybiau rhwng yr amser presennol a therfyn amser addewid yr Uwch Gynghrair o Awst 2017.

Crynodeb o ganfyddiadau

Roedd yr wybodaeth a dderbyniwyd gennym o'r 20 clwb yn amrywio, o gofio bod pob un o'u meysydd yn unigryw ac yn cyflwyno set wahanol o heriau. Roedd rhai clybiau'n awyddus iawn i ddweud wrthym am yr holl bethau positif sydd ganddynt yn eu lle ar gyfer eu cefnogwyr anabl. Fe wnaeth rhai clybiau ddarparu ond ychydig o wybodaeth gan roi amrywiaeth o resymau am hyn. Roedd y mwyafrif o glybiau'n rhywle yn y canol, yn dangos arfer da mewn rhai meysydd ac yn methu mewn rhai eraill.

Er mwyn rhoi cipolwg inni ar pa mor ddifrifol mae clybiau'n cymryd eu goblygiadau i'w cefnogwyr anabl, fe wnaethom ofyn iddynt ddarparu gwybodaeth inni ar pryd mae materion ynghylch anabledd wedi'u trafod ar lefel y Bwrdd o fewn y clwb. Yn anffodus, nid oedd rhai clybiau'n gallu darparu ateb fanwl i'r cwestiwn hwn, gan awgrymu nad yw'r materion hyn erioed wedi'u trafod efallai ar lefel y Bwrdd.

Hefyd fe wnaethom ofyn i glybiau roi gwybodaeth inni ynghylch pwy, o fewn y clwb, sydd â chyfrifoldeb am fynediad anabl i'r maes. Roeddem yn gobeithio gweld rhestr o bobl, gan gynnwys rhywun ar lefel uwch, er enghraifft aelod o'r Bwrdd neu gyfarwyddwr, a Swyddog Mynediad Anabl (DAO) a Swyddog Cydgysylltu Anabledd (DLO). Mae un o'r rheolau yn [Llawlyfr yr Uwch Gynghrair](#) 2016/17 yn perthyn i gyflogi DAO. Mae hyn ar ben y DLO, rôl a ddylai fod yn ei lle eisoes mewn clybiau fel gofyniad UEFA.

Mae'r Uwch Gynghrair yn datgan yn eu [hadroddiad interim](#) o Ionawr 2017 bod DAO yn 'un o'r pum swydd allweddol yn y clwb a amlinellir yn Adran J y Llawlyfr'. O'r wybodaeth a ddarparwyd i ni ar 10 Chwefror mae'n ymddangos bod tri chlwb heb benodi rhywun i'r swydd hon a dau glwb lle nad yw'n glir a oes ganddynt DLO penodedig. Byddwn ni'n trafod hyn gyda'r Uwch Gynghrair yn yr wythnosau o'n blaen.

Mae pethau positif i adrodd arnynt. Mae rhai clybiau'n darparu gwasanaethau da ar gyfer eu cefnogwyr anabl. Trwy gynnig datganiadau clir, hawdd eu canfod ar fynediad ar eu gwefannau maent yn ei wneud yn syml i gefnogwyr brynu tocynnau a chael yr wybodaeth mae arnynt ei hangen i lywio eu taith i'r maes.

Mae hwn yn ddarn syml ond pwysig o wybodaeth y gall clybiau drefnu'n hawdd ei fod ar gael ar gyfer cefnogwyr sy'n ymweld, gartref ac i ffwrdd fel ei gilydd. Ers Mehefin 2016, bu'n rheol i'r Uwch Glybiau gyhoeddi datganiad hygyrchedd. Ar 10 Chwefror 2017 nid oedd datganiad gan saith clwb ar eu gwefan.

Darparodd rhai clybiau wybodaeth am fentrau positif eraill, er enghraifft gosod cyfleusterau Lleoedd Newid ac ystafelloedd synhwyrdd.

Er y bydd cyfyngiadau stadia presennol efallai yn ei wneud yn anodd i rai clybiau gyflawni'r argymhellion lleiaf ar gyfer hygyrchedd fel y'i manylir yn yr ASG, darparodd rhai clybiau wybodaeth i ni am sut roedden nhw'n bwriadu ateb yr her hon o ddifrif drwy wneud newidiadau arwyddocaol i'w maes presennol. Mae clybiau eraill yn adeiladu, neu'n cynllunio adeiladu, maes newydd neu brif safleoedd newydd. Byddem yn disgwyl i'r meysydd hyn neu'r eisteddleoedd newydd gael eu hadeiladu hyd at y safon uchaf ynghylch hygyrchedd, heb ddyheu'n unig at gyflawni'r isafswm.

Ni wnaeth clybiau eraill ddarparu digon o wybodaeth inni i allu tynnu unrhyw gasgliadau positif ynghylch eu dyheadau cyfredol neu arfaethedig ar gyfer eu cefnogwyr anabl.

Camau nesaf

Yn dilyn ein dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarparwyd inni, mae'r Comisiwn yn dal i fod yn bryderus nad yw'r holl glybiau yn yr Uwch Gynghrair yn cydymffurfio â'u goblygiadau o dan y Ddeddf. Mae'r opsiwn i ddefnyddio ein pwerau ffurfiol ac ymgymryd ag ymchwiliad i glybiau a enwir yn dal i gael ei ystyried. Mae Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Comisiwn yn mynnu y byddwn ni'n cymryd camau gorfodi dim ond lle mae ymgeisiau i annog cydymffurfiaid wedi methu. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau i sicrhau y gall camau adfer neu atal gael eu cymryd, yn rhoi cyngor neu gyfarwyddyd penodol iddynt, a chynnal cyfarfodydd gydag uwch-reolwyr a staff eraill. Hwn fydd ein haddewid i glybiau yn y misoedd sy'n dod.

Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf byddwn ni'n ysgrifennu at glybiau i geisio cyfarfodudd lle:

- na roddwyd digon o wybodaeth inni i allu tynnu unrhyw gasgliadau positif ynghylch eu dyheadau cyfredol neu arfaethedig ar gyfer eu cefnogwyr anabl
- mae clybiau'n cynllunio ac adeiladu meysydd a phrif safleoedd newydd ar hyn o bryd, fel y gallwn ni ddeall yn fanwl sut maent yn bwriadu sicrhau bod profiad eu cefnogwyr anabl yn hafal i brofiad cefnogwyr nad ydynt yn anabl
- nid yw clybiau'n diwallu, neu nad oeddynt yn gallu darparu cynlluniau pendant inni i ddiwallu, y cyfarwyddyd ASG ar ofodau cadair olwyn a seddi hygyrch, ac i ddeall a yw eu darpariaeth yn golygu addasiad rhesymol neu beidio

Yn y cyfarfodydd hyn byddwn ni'n disgwyl i glybiau arddangos y cynlluniau sydd ganddynt yn eu lle a'u llinellau amser ar gyfer diwallu eu goblygiadau cyfreithiol.

Hefyd rydym yn gobeithio nodi arfer da mewn rhai clybiau, yr hyn y byddwn ni'n ei rannu gydag eraill, fel y gall y gwaith a wneir gan glybiau'r Uwch Gynghrair osod y safon am yr hyn sy'n rhesymol ar gyfer darparwyr stadia a lleoliadau mawr eraill.

Rydym yn aros am ganlyniad addewid yr Uwch Gynghrair â diddordeb.

Ar ddiwedd y tymor hwn byddwn ni'n agor galwad am dystiolaeth gan gefnogwyr anabl ar eu profiadau o fynychu gemau pêl-droed yn yr Uwch Gynghrair. Rydym am glywed am:

- pa glybiau sy'n ei gael yn gywir ar gyfer eu cefnogwyr a pha glybiau sy'n ei gael yn anghywir
- profiad cefnogwyr anabl sy'n teithio i gemau i ffwrdd
- beth mae clybiau wedi'i wneud yn nhymor 2016-17 i wella profiad cefnogwyr anabl a
- phrofiad cefnogwyr anabl wrth brynu tocynnau

Byddwn ni'n cwrdd a siarad â grwpiau o gefnogwyr anabl a rhanddeiliaid eraill â buddiant, ac aros mewn cysylltiad â'r Uwch Gynghrair ar gynnydd tuag at eu haddewid.

Rydym yn gobeithio y bydd pob clwb, ar ddechrau Medi 2017, wedi darparu dystiolaeth inni i arddangos sut maent wedi diwallu eu goblygiadau cyfreithiol, neu y byddant wedi cyrraedd cytundeb gyda ni ynghylch sut y byddant yn diwallu eu goblygiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag os, yn dilyn ein deialog gyda'r clybiau a'r wybodaeth a gesglir gan gefnogwyr anabl, y byddwn ni'n dal i amau nad yw clwb neu glybiau'n cydymffurfio â'u goblygiadau cyfreithiol, byddwn ni'n cychwyn ymchwiliad ffurfiol i glwb neu glybiau a enwir.

Rydym yn ymrwymedig i gychwyn yr ymchwiliad hwnnw ym Medi 2017.

Canfyddiadau manwl

Tabl 1: Darpariaeth o ofodau cadair olwyn a seddi amwynder a mynediad hawdd (AEA)

Clwb	Diwallir isafswm o ofodau cadair olwyn?	% o o ofodau cadair olwyn a ddarperir	Diwallir y gofyniad ochr y maes?	% o ofodau ar ochr y maes	Diwallir isafswm o seddi AEA?	% o seddi AEA
AFC Bournemouth	Ie	186	Na	95	Na	0
Arsenal	Na	79	Ie	0	Na	80
Burnley	Na	27	Na	83	Na	0
Chelsea	Na	50	Na	87	Na	0
Crystal Palace	Na	38	Ie	0	Na	21
Everton	Na	56	Na	88	Na	0
Hull City	Na	91	Na	46	Na	Ansicr
Dinas Caerlŷr	Ie	106	Na	65	Ie	128
Lerwpwl	Na	79	Na	60	Na	37
Dinas Manceinion	Ie	106	Ie	0	Ie	117
Manchester Utd	Na	43	Ie	0	Na	45
Middlesburgh	Ie	117	Na	59	Ie	414
Southampton	Ie	104	Na	63	Ie	109
Stoke City	Na	67	Ie	0	Na	Ansicr
Sunderland	Na	89	Na	50	Ie	144
Dinas Abertawe	Ie	100	Ie	25	Ie	262
Tottenham	Na	31	Na	100	Na	52

Pa mor hygyrch yw eich clwb? Mynediad i bobl anabl i feysydd Clybiau'r Uwch Gynghrair

Hotspur						
Watford	Na	40	Na	64	Na	85
West Bromwich Albion	Na	85	Na	61	le	118
West Ham	le	104	le	0	le	251
Cyfansymiau	7/20		7/20		8/20	

Diwallu'r isafswm o ofodau cadair olwyn

Fe wnaeth ASG 2003 roi cymhareb ar gyfer yr isafswm o ofodau cadair olwyn yn gymesur â'r nifer o seddi safonol yn y stadiwm. Mae hyn fel sy'n dilyn:

- Capasiti stadiwm o dan 10,000 o seddi = isafswm 6 gofod cadair olwyn, neu 1 ym mhob 100 gan ddibynnu ar pa un sy'n fwy
- 10,000 – 20,000 o seddi = 100 o ofodau cadair olwyn a 5 i bob 1,000 yn uwch na 10,000
- 20,000 – 40,000 o seddi = 150 o ofodau cadair olwyn a 3 i bob 1,000 yn uwch na 20,000
- 40,000+ o seddi = 210 o ofodau cadair olwyn a 2 i bob 1,000 yn uwch na 40,000

Capasiti canolrif y meysydd cyfredol yn yr Uwch Gynghrair yw oddeutu 33,000. Yn ôl y meini prawf ASG ar gyfer stadiwm â chapasiti o 33,000 dylai fod isafswm o 189 o ofodau cadair olwyn. Mae hon yn ganran fach o seddi sydd ar gael i gefnogwyr nad ydynt yn anabl.

Mae'n siomedig, 14 mlynedd wedi' i'r cyfarwyddyd hwn gael ei gyhoeddi'n gyntaf, mai dim ond saith o'r 20 clwb sydd wedi cyrraedd yr isafswm o ofodau cadair olwyn fel y'i diffinnir gan y meini prawf ASG.

Mae'r ASG yn cyflwyno'r meini prawf ar gyfer gofod priodol i ddefnyddiwr cadair olwyn. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion isaf am ofod, sedd cymar nesaf at y defnyddiwr cadair olwyn, safle'r sedd yn y maes, a'r golwg sydd ar gael. O'r wybodaeth a ddarparwyd inni gan glybiau mae'n ymddangos nad yw rhai o'r gofodau cadair olwyn a nodir gan y clybiau, a sydd wedi'u cynnwys yn y tabl uchod, yn diwallu'r meini prawf perthnasol o dan yr ASG. Nid ydym wedi asesu ansawdd y gofodau a ddarperir, felly mae'n bosibl bod yr ystadegau hyn yn cynrychioli senario achos gorau. Byddwn ni'n archwilio safonau'r gofodau cadair olwyn yn fanwl gyda chlybiau yn ei bryd.

Cynnig dewis o seddi – diwallu'r gofyniad ochr y maes

Mae'r ASG yn argymhell na ddylai mwy na 25% o ofodau cadair olwyn mewn stadiwm fod ar ochr y maes. Bwriedir hyn i sicrhau bod clybiau'n darparu dewis i gefnogwyr mewn cadeiriau olwyn, gan roi amrywiaeth o leoliadau gwyllo iddynt drwy gydol y maes. Mae'r canllaw yn datgan: 'un o brif ofynion BS8300 yw y dylai pobl anabl gael mynediad i unrhyw lawr o adeilad annomestig. Yng nghyd-destun stadia, mae hyn yn

golygu y dylai cefnogwyr ag anableddau gael dewis llawer mwy o leoliadau gwyllo nag o'r blaen'.

Mae'r tabl uchod yn cyflwyno a yw clybiau'n diwallu'r maen prawf hwn neu beidio a pha ganran o'u gofodau cadair olwyn sydd ar ochr y maes. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd inni mae gan 11 clwb fwy na 50% o'u gofodau cadair olwyn ar ochr y maes, ac mae gan bum clwb fwy nag 80% ar ochr y maes.

O'r saith clwb a nodwyd fel rhai sydd â nifer ddigonol o ofodau cadair olwyn, dim ond tri sydd â digon o ddewis o seddi ar gyfer eu cefnogwyr: Dinas Manceinion, Dinas Abertawe a West Ham.

Nid yw hyn yn adlewyrchu'n dda o gofio dewis ar gyfer eu cefnogwyr.

Diwallu'r isafswm o seddi amwynder a mynediad hawdd (AEA)

Mae argaeledd y seddi hyn yn bwysig i bobl anabl ag amrediad o amhariadau gan ei fod yn eu galluogi i gyrraedd eu seddi'n hawdd. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod wedi'u cyfyngu o ran y pellter y gallant gerdded a phobl a allai fod yn ddall neu'n rhannol ddall sydd â chymhorthion cerdded neu gi tywys. Dim ond saith o'r 20 clwb sy'n gallu diwallu'r maen prawf hwn.

Cyflwynwyd y ddarpariaeth o seddi AEA yn y [Canllaw Ategol i Stadia Hygyrch](#) a gyhoeddwyd yn 2015 a sy'n chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod stadia'n hygyrch ar gyfer cefnogwyr sy'n gallu cerdded ond sydd ag amrediad o amhariadau. Mae'n datgan:

'Ar ben darparu gofod ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn dylai'r holl stadia ddarparu nifer deg o seddi amwynder a mynediad hawdd ar gyfer cefnogwyr a allai angen mwy o ofod. Dylai seddi amwynder ddarparu seddi â gofod ychwanegol i goesau a mae'n ddefnyddiol i ddarparu rhai â chynalyddion braich, er y dylai'r rhain fod yn symudadwy. Hefyd dylai seddi amwynder a mynediad hawdd gael cynalyddion cefn.

Efallai y bydd pobl â symudedd gyfyng angen mwy o ofod i gyrchu eu sedd wrth ddefnyddio cymorth cerdded neu faglau, a dyna pam mae angen mwy o ofod i'r coesau. Efallai na fyddant yn gallu sefyll yn hawdd am gyfnodau hir neu newid ystum yn hawdd. Felly, dylai seddi amwynder

ddarparu llinell wyllo resymol o safle'r sedd nas rhwystrir gan gefnogwr arall sy'n sefyll o'i flaen neu i'r ochr. Hefyd efallai y bydd cefnogwr anabl sy'n cael ei hebrwng gan gi cymorth neu gi tywys angen gofod ychwanegol i'r ci orwedd o flaen neu o dan eu sedd. Dylid darparu dewis o seddi AEA iddynt hwy hefyd.

Dylid darparu seddi AEA mewn ardaloedd hawdd eu cyrchu, megis ar ddiwedd rhesi, ble lleiheir grisiau i helpu cefnogwyr â symudedd cyfyng. Dylai cefnogwyr sydd angen seddi AEA allu eistedd gyda chefnogwyr eu tîm eu hunain mewn amrywiaeth o ardaloedd gwyllo a chategoriâu tocyn, gan gynnwys lletygarwch, VIP a blychau cyfarwyddwyr. Hefyd dylai'r fath seddi gael eu lleoli yn agos i doiledau a chyfleusterau eraill.'

Mae'r fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r ddarpariaeth o seddi AEA yr un ag ar gyfer gofodau cadair olwyn (gweler uchod).

Lle mae clwb wedi datgan 'gall cefnogwyr anabl sy'n gallu cerdded eistedd ble bynnag maent yn ei ddewis o fewn y stadiwm' yn unig rydym wedi penderfynu nad oes unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer seddi AEA. Mae hyn yn gymwys i Bournemouth, Burnley, Chelsea ac Everton. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan Hull yn aneglur; maent yn dweud bod ganddynt 500 o seddi AEA drwy gydol y maes ond yn eu hymateb fan arall ac ar eu gwefan maent yn awgrymu y gall cefnogwyr anabl sy'n gallu cerdded eistedd unrhyw le yn y stadiwm. Hefyd darparodd Stoke wybodaeth anghyson. Mae'r clwb yn dweud bod ganddynt 232 o seddi dynodedig, ond mae eu gwefan yn dweud nad oes unrhyw seddi penodol ar gyfer cefnogwyr anabl sy'n gallu cerdded.

Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn y tabl wedi'u seilio ar wybodaeth a ddarperir gan y clybiau, ac nid ydynt wedi bod yn destun dilysu annibynnol eu bod yn diwallu'r meini prawf ASG ar gyfer seddi AEA. Felly mae'r ystadegau hyn eto o bosibl yn cynrychioli senario achos gorau, ac eto dim ond wyth o'r 20 o glybiau sy'n darparu'r isafswm neu fwy o seddi AEA dynodedig ar gyfer cefnogwyr fel y'i diffinnir gan y meini prawf ASG.

Lle mae gennym bryderon ynghylch diffyg argaeledd seddi AEA dynodedig byddwn ni'n trafod y materion hyn yn fanwl gyda'r clybiau dan sylw yn ei bryd.

Tabl 2: Darpariaeth o doiledau, cyfleusterau Lleoedd Newid, ystafelloedd synhwyraidd, datganiadau mynediad ac archwiliadau

Clybiau	Diwallir y gymhareb1:15 ar gyfer toiledau hygyrch?	Diwallir y safonau gofynnol?	Darperir cyfleusterau Lleoedd Newid?	Darperir ystafell synhwyraidd?	Datganiad mynediad anabledd	Dyddiadau archwiliadau mynediad yn y 10 mlynedd diwethaf
AFC Bournemouth	Ie	Na	Na	Na	Ie	2016
Arsenal	Ie	Ie	Ie	Na	Ie	2010
Burnley	Ie	Ansicr	Na	Na	Na	Heb eu darparu
Chelsea	Ie	Ie	Na	Na	Ie	2012; 2014; 2016
Crystal Palace	Ansicr	Ansicr	Na	Na	Na	Heb eu darparu
Everton	Ie	Ie	Na	Na	Ie	2016
Hull City	Ie	Ansicr	Na	Na	Na	2016
Dinas Caerlŷr	Ie	Na	Ie	Na	Ie	2010; 2013; 2016
Lerpwl	Ie	Na	Ie	Na	Ie	2010; 2012; 2016
Dinas Manceinion	Ie	Ie	Ie	Na	Ie	2012; 2016
Manceinion Unedig	Ie	Ie	Ie	Na	Na	2011; 2014; 2016

Pa mor hygyrch yw eich clwb? Mynediad i bobl anabl i feysydd Clybiau'r Uwch Gynghrair

Middlesbrough	le	Na	Na	le	Na	2016
Southampton	le	le	le	No	le	2016
Stoke City	le	le	Na	No	Na	2014; 2016
Sunderland	le	Na	Na	le	le	2016
Dinas Abertawe	le	le	Na	Na	le	Heb eu darparu
Tottenham Hotspur	le	le	Na	Na	le	2012
Watford	le	Na	Na	le	le	2008; 2011; 2016
West Bromwich Albion	le	Na	Na	Na	le	2010; 2016
West Ham	le	le	le	Na	Na	2007
Cyfansymiau	19/20	9/20	7/20	3/20	13/20	

Diwallu'r gymhareb 1:15 ar gyfer toiledau hygyrch

Mae'r ASG yn dweud 'dylai pobl anabl allu canfod a defnyddio cyfleusterau offer ymolchfa priodol mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl a dylent gael eu gwasgaru o gwmpas y stadiwm'. Mae'r gymhareb o un toiled hygyrch ar gyfer pob 15 o ofodau cadair olwyn a ddarperir yn y maes yn safon diwydiant ac yn arfer dda yng nghanllawiau UEFA a CAFE ar gyfer stadia chwaraeon. O'r wybodaeth a ddarparwyd inni gan glybiau roedd yn aneglur pa mor ddigonol a phriodol mae rhai o'u toiledau hygyrch. Er yr ymddengys fod pob un ond un clwb yn diwallu'r gymhareb un i 15 o doiledau i ofodau cadair olwyn (graddwyd Crystal Palace fel 'ansicr' gan eu bod wedi darparu ond ychydig iawn o wybodaeth inni ynghylch y nifer o doiledau hygyrch yn y maes), roedd nifer o glybiau â phroblemau mân neu fwy sylweddol â'r safonau darpariaeth.

Er bod gan Bournemouth a Burnley y nifer gywir o doiledau hygyrch ar gyfer y gofodau cadair olwyn maent yn eu darparu ar hyn o bryd, mae'n aneglur o'r wybodaeth iddynt ei hanfon inni a yw'r ddarpariaeth yn Burnley yn cyrraedd y safon ofynnol. Cyfeirir at ddarpariaeth Bournemouth yn fanwl yn yr adroddiad gan yr ymgynghorwyr arbenigol Wilson Owens Owens (WOO), yr hyn yr anfonodd Bournemouth i'r Comisiwn a sy'n beirniadau'r ansawdd.

Fe wnaeth Chelsea, Dinas Manceinion a Southampton i gyd adrodd bod ganddynt broblemau mân â rhai o'u toiledau hygyrch, â 'mân' yn golygu problemau ynghylch cynnal a chadw, rheiliau gafael, arwyddion, dyluniad a chynllun. Byddem yn disgwyl i'r problemau hyn gael eu trafod yn hawdd.

Mae gan Everton, Caerlŷr, Lerpwl, Middlesbrough, Sunderland, Watford ac West Bromwich Albion i gyd yr hyn rydym yn ystyried eu bod yn broblemau mwy sylweddol â'u toiledau hygyrch, er enghraifft mae rhai o'r toiledau'n rhy bell i ffwrdd (dros 40 metr) o'r gofodau cadair olwyn. Mae llawer o glybiau wedi adrodd eu bod yn ymwybodol o hyn a'u bod yn ystyried gwelliannau.

Problemau eraill a adroddwyd oedd dosbarthu ar draws y stadia. Mae gan rai prif safleoedd nifer ddigonol o doiledau ar gyfer y gofodau cadair olwyn ond nid yw hyn yn wir am bob un. Nid yw rhai toiledau (fel y'i adroddwyd mewn archwiliadau WSOO) yn cydymffurfio'n llawn â'r cyfarwyddyd yn y [Rheoliadau Adeiladu, Dogfen Gymeradwy Rhan M](#), nag ychwaith â'r cyfarwyddyd yn BS 8300. Mae BS 8300: 2009+A1:2010 yn edrych ar gynllun adeiladau a'u gallu i ddiwallu gofynion pobl anabl. Trwy gynnig argymhellion ynghylch arfer gorau, mae'r safon hon yn esbonio sut y gall cynllun pensaernïol a'r amgylchedd adeiledig helpu pobl anabl i wneud y

mwyaf o'u hamgylchyniad. Nid yw rhai clybiau'n darparu toiledau hygyrch ar wahân ar gyfer cefnogwyr y tîm i ffwrdd.

Dylid nodi yr amcangyfrifwyd y ffigurau un toiled hygyrch ar gyfer pob 15 o ofodau cadair olwyn mewn cysylltiad â'r nifer gyfredol o ofodau cadair olwyn. Wrth i glybiau gynyddu'r nifer o ofodau cadair olwyn i ddiwallu'r meini prawf ASG, byddem yn disgwyl cynnydd cyfatebol o ran y nifer o doiledau hygyrch yn unol â'r gymhareb un i bob 15.

Darpariaeth o gyfleusterau Lleoedd Newid

Mae toiledau Lleoedd Newid yn fwy na thoiledau hygyrch safonol ac mae ganddynt gyfarpar ychwanegol, gan gynnwys system godi a mainc addasadwy i newid. Maent yn darparu digon o le a'r cyfleusterau ar gyfer pobl anabl a allai ddefnyddio cadeiriau olwyn mawr, cymhleth, neu a allai angen cyfarpar ychwanegol. Mae rhieni a gofawyr wedi adrodd am achlysuron lle nad oedd dewis ganddynt ond newid yr aelod o'u teulu trwy eu gorwedd ar lawr toiled hygyrch.

Ym Medi 2016 ysgrifennodd Penny Mordaunt AS, Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith, at yr Uwch Gynghrair yn galw ar glybiau i osod cyfleusterau Lleoedd Newid erbyn diwedd y tymor 2016-17.

Ar 10 Chwefror 2017, dim ond saith clwb oedd wedi gosod cyfleusterau Lleoedd Newid.

Darpariaeth o ystafell synhwyaidd

Mae ystafelloedd synhwyaidd yn gyfleusterau a adeiladwyd yn arbennig sy'n cynorthwyo pobl ag awtistiaeth neu amhariadau synhwyaidd iddynt allu gwyllo gemau mewn amgylchedd hygyrch. Yn Hydref 2016 fe wnaeth yr Uwch Gynghrair [gyhoeddi cynllun](#) i ariannu ystafelloedd synhwyaidd ar draws pob un o'r 20 clwb. Mae'n siomedig mai dim ond tri chlwb sydd wedi gosod y fath gyfleusterau hyd yn hyn.

Datganiad mynediad anabledd

Mae darparu datganiad mynediad cynhwysfawr yn ddull cost isel, effeithiol o geisio sicrhau bod cyfleusterau mor hygyrch â phosibl ar gyfer cefnogwyr anabl. Mae'n ddogfen allweddol gan ei bod yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cefnogwyr anabl ag amrediad o amhariadau mewn un lle sydd yn hawdd ei gyrchu. Mae'n caniatáu iddynt asesu o flaen llaw pa mor hygyrch yw cyfleuster iddynt. Hefyd gall ddylanwadu ar eu penderfyniad i ymweld â'r maes hwnnw fel cefnogwr y tîm i ffwrdd. Dylai datganiad mynediad fod yn hawdd ei ganfod ar wefan clwb, ac yn ddelfrydol byddai ar gael mewn copi caled, print mawr, a braille ar gais. Dylai gwmpasu pethau megis:

- Cludiant i'r stadiwm: cludiant cyhoeddus, parcio ceir, cyrbau gollyngedig, manau gollwng, rampiau
- Mynedfeydd stadiwm a hygyrchedd
- Cylchrediad o fewn y stadiwm
- Mynedfeydd prif safleoedd ac ardaloedd gwylio
- Swyddfeydd tocynnau
- Toiledau

Argymhellwyd datganiadau mynediad yn yr ASG 2003 gwreiddiol a Chyfarwyddyd Ategol 2015. Mae cyhoeddi datganiad mynediad anabledd yn ffurfio rhan o [Lawrlyfr yr Uwch Gynghrair 2016/17](#) (Adran R2), sy'n datgan: 'Bydd pob clwb yn dyfeisio, dogfennu a chyhoeddi: [...] datganiad mynediad anabledd. Rhaid darparu copi o bob dogfen o'r fath i'r Uwch Gynghrair cyn dechrau'r Tymor'.

Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd i'r Comisiwn, ar hyn o bryd mae saith o'r 20 clwb yn yr Uwch Gynghrair yn torri rheol yr Uwch Gynghrair ei hunan, gan nad oeddynt yn gallu darparu datganiad mynediad anabledd inni sy'n cynnig yr holl wybodaeth y byddai person anabl ei hangen wrth fynychu gêm. Roedd hyn yn wir ar gyfer Manceinion Unedig, Middlesbrough, Stoke ac West Ham. Mae gan y clybiau hyn wybodaeth sylweddol ar gael eisoes ar eu gwefannau, felly dylai casglu hyn oll ynghyd mewn datganiad mynediad anabledd a'i amlygu ar eu gwefannau fod yn dasg seml. Fe wnaeth Crystal Palace ddarparu datganiad mynediad inni ond nid oedd yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni ei bwrpas. Mae eu gwefan yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen. Byddem yn disgwyl y bydd y clwb yn gallu cynhyrchu datganiad mynediad anabledd cynhwysfawr yn unol â rheol yr Uwch Gynghrair erbyn dechrau tymor 2017-18.

Gyda chlybiau eraill roedd problemau mwy sylweddol ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer cefnogwyr anabl. Fe wnaeth Burnley adrodd inni eu bod yn comisiynu datganiad mynediad llawnach, gan fod y fersiwn sydd ar gael ar hyn o bryd ar eu gwefan yn dyddio o Chwefror 2012 ac yn cynnwys gwybodaeth gyfyng iawn. Nid oes gan Hull unrhyw ddatganiad mynediad ar ei wefan.

Dyddiadau archwiliadau mynediad yn y 10 mlynedd diwethaf

Nid yw archwiliadau mynediad yn newydd a maent yn rhan o argymhellion ASG 2003 a 2015. Mae [Cod Ymarfer ar Wasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chysylltiadau'r](#) Comisiwn yn datgan bod adolygu'n rheolaidd a yw gwasanaethau'n hygyrch i bobl anabl, a chynnal a gweithredu 'ar ganlyniadau archwiliad mynediad a gynhelir gan berson â chymwysterau addas' yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth i ddiwallu eu goblygiadau i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r graddau y mae clwb wedi comisiynu archwiliadau mynediad yn darparu baromedr defnyddiol o ran agwedd y clwb tuag at ei gefnogwyr anabl. Gwnaethom ofyn i glybiau ddarparu dyddiadau i ni o'u harchwiliadau data o'r 10 mlynedd ddiwethaf. Dylid nodi bod rhai o'r clybiau wedi symud i stadia sydd newydd eu hadeiladu yn ystod y cyfnod hwn o 10 mlynedd, ond serch hynny, mae archwiliadau'n dal i fod yn bwysig o ran cyflawni'r ddyletswydd i weithredu'n rhagweithiol ac i sicrhau cydraddoldeb yn gyson ar gyfer cefnogwyr anabl.

Ymddengys mai llawer o'r archwiliadau mynediad mae clybiau, gan gynnwys Bournemouth, Everton, Lerpwl, Watford ac West Bromwich Albion yn ein cyfeirio atynt, yw'r Archwiliadau Stadia Hygyrch a gynhaliwyd gan Wilson Owens Owens (WOO) ar ran yr Uwch Gynghrair. Comisiynwyd yr adroddiadau hyn gan yr Uwch Gynghrair ar gyfer pob clwb i'w helpu i ddiwallu [Addewid yr Uwch Gynghrair](#) erbyn Awst 2017. Mae hyn yn arddangos effaith arweinyddiaeth yr Uwch Gynghrair yn y maes hwn. Mae'n siomedig, fodd bynnag, bod y clybiau hyn angen y fenter hon er mwyn cynnal adolygiad trwyadl o hygyrchedd eu stadia.

Roedd ymateb Burnley yn aneglur ond ymddengys o'r wybodaeth a ddarparwyd na chynhaliwyd archwiliad mynediad llawn erioed. Fe wnaeth Crystal Palace ddarparu copi rhannol heb ddyddiad o archwiliad WOO diweddar ond nid yw hwn yn archwiliad mynediad llawn, ac ni wnaethant ddarparu unrhyw ddyddiadau eraill. Fe wnaeth Abertawe gynnal archwiliad mynediad llawn pan symudon nhw i'w maes

newydd yn 2005, ond ni wnaethant ddarparu unrhyw ddyddiadau inni o archwiliadau pellach a gynhaliwyd yn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae West Ham wedi ein hysbysu mai 2007 oedd dyddiad eu harchwiliad mynediad diwethaf, fodd bynnag mae hwnnw'n perthyn i'w maes blaenorol, Upton Park. Fe wnaethant symud i'r Stadiwm Olympaidd yn Awst 2016. Mae'n siomedig na chynhaliwyd unrhyw archwiliad mynediad ers hynny. Er bod y maes hwn wedi'i adeiladu hyd at y Safon Olympaidd, sy'n rhagori ar yr isafswm meini prawf ASG, rydym yn deall bod gwaith sylweddol wedi'i wneud i newid y stadiwm yn faes pêl-droed ac felly byddem yn disgwyl archwiliad mynediad newydd.

Yn dilyn archwiliadau mynediad, byddem yn disgwyl gweld cynllun gweithredu yn seiliedig ar y canfyddiadau. Mae hyn yn galluogi clwb i weithio'n weithredol tuag at drafod pob problem a amlygir gan yr archwiliad. Byddwn ni'n dilyn hyn i fyny gyda chlybiau yn ei bryd.

Yn gryno

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein hasesiad cyntaf o ddarpariaeth gyfredol ar gyfer cefnogwyr anabl ar draws pob un o'r Uwch Glybiau.

Fel y'i hamlinellir yn y camau nesaf, fe wnawn ddilyn yr adroddiad hwn drwy ymgysylltu'n fanylach â'r Uwch Glybiau er mwyn deall yr heriau maent yn eu hwynebu ac i glywed mwy am eu cynlluniau i wella hygyrchedd eu meysydd a'r gwasanaethau maent yn eu cynnig i gefnogwyr anabl. Byddwn hefyd yn cynnal arolwg gyda chefnogwyr anabl i ddeall eu profiadau diwrnod y gêm yn well.

Gobeithio, bydd hon yn broses bositif i glybiau a chefnogwyr anabl fel ei gilydd ac y daw gwelliannau sylweddol yn ei sgil o ran hygyrchedd pob maes, fel y gall pob cefnogwr gael yr un profiad wrth wyllo gêm, waeth a fydd y tîm yn fuddugol, wedi colli neu wedi cael gêm gyfartal.

Atodiad 1: Llythyr i glybiau'r Uwch Gynghrair

Annwyl

Pwnc: Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol

Sefydlwyd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae ganddo ddyletswydd statudol i weithio tuag at gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail, oedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, a chyfeiriadedd rhywiol. Dyma'r nodweddion a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf').

Fel y gwyddoch, yn Awst 2015, fe wnaeth pob clwb yn yr Uwch Gynghrair addo gwella cyfleusterau eu stadia ar gyfer cefnogwyr anabl trwy gyflawni cydymffurfriad â'r Canllaw Stadia Hygyrch (ASG) erbyn Awst 2017. Yn ddiweddar fe wnaeth y Comisiwn gwrdd â'r Uwch Gynghrair i drafod y cynnydd ar yr addewid hon. Fe wnaethom drafod y broses o gasglu gwybodaeth y maent wedi ymrwymo i'w gwneud, gan gynnwys yr holiadur eang sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan pob clwb yr UG ynghylch hygyrchedd. Rydym yn cefnogi'r broses hon a byddem yn eich annog i lenwi hwn mor gynhwysfawr ag y gallwch.

Fodd bynnag, tra bod ffocws yr UG ar gydymffurfio â'r ASG erbyn Awst 2017, ein diddordeb ni yw sicrhau bod pob clwb yn yr Uwch Gynghrair yn cydymffurfio â'u dyletswyddau parhaus o dan y Ddeddf.

O dan y Ddeddf, fel darparwyr gwasanaethau i'r cyhoedd, mae gan glybiau pêl-droed ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau positif, y cyfeirir atynt fel addasiadau rhesymol, i sicrhau y gall pobl anabl gyrchu eu gwasanaethau. Rwyf yn ysgrifennu i ofyn am eich cymorth a chydweithrediad ynghylch asesu i ba raddau mae ENW'R CLWB yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol hon ar hyn o bryd.

Y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

Mae Adran 20 y Ddeddf yn cyflwyno'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Mae'r Ddeddf yn diffinio methiant i wneud addasiadau rhesymol fel math o

wahaniaethu anghyfreithlon. Er ei fod yn anghyfreithlon i ddarparwyr gwasanaeth wahaniaethu yn erbyn pobl anabl mewn nifer o ffurdd, mae'r ddyletswydd o dan adran 20 yn arbennig o berthnasol ynghylch mynediad ar gyfer cefnogwyr anabl o bêl-droed. Fel y byddwch yn ymwybodol, gellir canfod cyfarwyddyd manwl ar y dyletswyddau mae'r Ddeddf yn eu gosod ar ddarparwyr gwasanaeth yng *Nghod Ymarfer ar Wasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chysylltiadau* statudol y Comisiwn. Mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan yn:

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice>

Ynghylch y ddyletswydd adran 20, mae'r Cod yn dweud hyn ym mharagraffau 7.3 - 7.4:

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn cymryd camau positif i sicrhau y gall pobl anabl gyrchu gwasanaethau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i osgoi gwahaniaethu'n unig. Mae'n galw ar ddarparwyr gwasanaeth i ragweld anghenion cwsmeriaid anabl posibl am addasiadau rhesymol.

Nid yw polisi'r Ddeddf yn bolisi lleiafsgymiol o sicrhau bod rhywfaint o fynediad yn unig ar gael i bobl anabl; mae, cyn belled ag ei fod yn rhesymol ymarferol, i drefnu bod y mynediad a fwynheuir gan bobl anabl yn agos i'r mynediad a fwynheuir gan weddill y cyhoedd. Pwrpas y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yw darparu mynediad i wasanaeth sydd mor agos ag y mae'n rhesymol bosibl ei gael i'r safon a gynigir fel arfer i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Felly mae'r ddyletswydd yn galw ar glybiau pêl-droed i ystyried o flaen llaw pa addasiadau rhesymol sydd eu hangen i hwyluso mynediad ar gyfer cefnogwyr anabl. Ni ddylai clybiau aros tan fod cefnogwr anabl yn gofyn i addasiad rhesymol gael ei wneud.

Nid yw'r goblygiadau hyn yn newydd. Mae'r gyfraith wedi mynnu bod clybiau pêl-droed yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl ers 1999 a daeth elfen derfynol y ddyletswydd hon i rym yn 2004. Cyhoeddwyd y Canllaw i Stadia Hygyrch (ASG) yn 2003 a chyhoeddwyd Canllaw ASG ategol yn Awst 2015, yn diweddarar'r ASG ynghylch dyletswyddau clybiau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi cyfarwyddyd ar y ddarpariaeth o seddi mynediad hawdd, cyfleusterau lleoedd lewid, toiledau a gwasanaethau hygyrch, ar dynnu rhwytrau synhwyraidd i ffwrdd ac ar archwiliadau a chynlluniau mynediad.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Rydym yn ysgrifennu at bob clwb yn yr UG, yn gofyn am wybodaeth er mwyn asesu a yw'n cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol tuag at gefnogwr anabl. Felly byddem yn ddiolchgar os gallwch ymateb i'r llythyr hwn gan ddarparu'r wybodaeth ddilynol:

Archwiliadau a chynlluniau mynediad

1. Byddwch gystal â darparu copi dyddiedig o'ch archwiliad hygyrchedd diweddaraf.
2. Byddwch gystal â darparu copi dyddiedig o'ch cynllun/strategaeth mynediad diweddaraf.
3. Byddwch gystal â darparu copi dyddiedig o'ch datganiad/cynllun mynediad cyhoeddus diweddaraf (h.y. yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd i'w cynorthwyo wrth gyrchu gwasanaethau'r clwb).
4. Byddwch gystal â darparu dyddiadau'r holl archwiliadau a chynlluniau mynediad blaenorol ers 2003.
5. Byddwch gystal â chadarnhau sut y trefnir bod eich datganiad mynediad cyhoeddus ar gael i gefnogwyr anabl a heb fod yn anabl ar hyn o bryd.

Mynediad i'r stadiwm:

6. Byddwch gystal â darparu manylion ynghylch y mesurau a gymerir gan y clwb i gynorthwyo cefnogwyr anabl i deithio i, mynd i mewn i, a mynd allan o'ch stadiwm. Byddem yn disgwyl ichi gynnwys manylion ynghylch:
 - a. Cludiant i ac o'r stadiwm, gan gynnwys parcio ceir.
 - b. Llwybrau mynediad, gan gynnwys rampiau a lifftiau, o fewn y stadiwm.
 - c. Y ddarpariaeth o wybodaeth ar gyfleusterau, llwybrau mynediad a chymorth i gefnogwyr anabl o fewn y stadiwm.

Seddi ac ardaloedd gwyllo:

7. Beth yw capasiti torf eich stadiwm?
8. Faint o ofodau cadair olwyn sydd ar gael ar hyn o bryd?
9. Ble mae'r gofodau cadair olwyn wedi'u lleoli yn y stadiwm? Byddwch gystal â phennu niferoedd ac union leoliadau gan gynnwys uchder a safle o fewn y prif safle.
10. Faint o seddi amwynder a mynediad hawdd sydd ar gael? (Gweler y Cyfarwyddyd ASG Ategol, t.5)
11. All cefnogwyr anabl brynu tocynnau tymor ar gyfer y seddi hygyrch hyn?
12. Beth yw union leoliad y seddi amwynder a mynediad hawdd hyn?
13. Os nad yw wedi'i gwmpasu gan yr hyn uchod, pa ddarpariaeth arall ynghylch seddi/gwyllo a wneir ar gyfer cefnogwyr anabl sy'n cerdded?

Arall:

14. Byddwch gystal â darparu manylion ynghylch cyfleusterau toiledau anabl sydd ar gael yn eich stadiwm gan gynnwys nifer, math, lleoliad ac ati;

15. Byddwch gystal â darparu manylion ynghylch sut mae'ch clwb yn sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i gefnogwyr anabl sy'n cerdded.

Cyffredinol:

16. Byddwch gystal â darparu tystiolaeth i'r Comisiwn o drafodaeth ar y materion hyn ar lefel y Bwrdd a/neu'r lefel weithredol yn y 18 mis diwethaf. Gallai hon fod ar ffurf cofnodion o gyfarfodydd Bwrdd, neu gynlluniau a chynigion a gymerir i'r Bwrdd ynghylch mesurau i wella mynediad.
17. Byddwch gystal â darparu manylion ynghylch pa aelod(au) staff sy'n gyfrifol am fynediad anabl i'ch clwb.
18. Byddwch gystal â darparu manylion ynghylch yr hyfforddiant diweddaraf a roddwyd i stiwardiaid diwrnod y gêm a staff eraill.

Darpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol

Rydym yn ymwybodol y gall trefniadau perchnogaeth stadiwm fod yn wahanol o glwb i glwb. Rydym hefyd yn ymwybodol y gallai clybiau unigol fod yn cynllunio symud neu adeiladu stadia newydd yn y dyfodol. Beth bynnag, byddem yn croesawu gwybodaeth ynghylch unrhyw gynlluniau cymeradwy ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau a mynediad ar gyfer cefnogwyr anabl yn y 12 – 24 mis nesaf.

Dyletswyddau a phwerau statudol y Comisiwn

Mae Adran 8 Deddf Cydraddoldeb 2006 yn gosod dyletswyddau ar y Comisiwn i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i weithio tuag at gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon. Mae Adran 16 Deddf 2016 yn caniatáu i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad i fater sy'n perthyn i'w ddyletswyddau Adran 8. Mae Adran 20 Deddf 2006 yn caniatáu i'r Comisiwn gynnal archwiliad lle mae'n amau y gallai person wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, er enghraifft methiant i wneud addasiadau rhesymol.

Mae Deddf 2006 hefyd yn rhoi pwerau i'r Comisiwn i orfodi personau sy'n destun ymchwiliad neu archwiliad i ddarparu tystiolaeth i'r Comisiwn. Os, yn dilyn archwiliad, yw'r Comisiwn wedi ymfodloni bod person wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, gall gyhoeddi rhybudd gweithred anghyfreithlon ynghylch y person hwnnw. Hefyd gall y Comisiwn wneud cytundebau cyfrwymol lle mae personau'n addo i beidio â chyflawni gweithred anghyfreithlon ac i weithredu neu beidio â gweithredu mewn ffordd arall a bennir.

Byddwch gystal â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani heb fod yn hwyrach na dydd Gwener 10 Chwefror 2017. Byddai tystiolaeth ffotograffig a chynlluniau, os ar gael, o gymorth, yn ychwanegol i wybodaeth ysgrifenedig. Ein bwriad yw cyhoeddi dadansoddiad ar wefan y Comisiwn o'r wybodaeth rydym yn ei derbyn gan bob clwb

yn yr UG. Bydd hyn yn cynnwys enwau unrhyw glybiau sydd wedi dewis peidio ag ymateb i'n llythyr.

Mae sicrhau cydraddoldeb ar gyfer cefnogwyr anabl o bêl-droed yn bwysig iawn i'r Comisiwn. Os, o ganlyniad i'r broses uchod, a/neu yn dilyn cyhoeddiad yr wybodaeth a gynhrychir gan holiadur yr UG, rydym yn amau neu'n credu bod clybiau unigol yn torri ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, byddwn ni'n ystyried y defnydd o'n pwerau statudol er mwyn cyflawni cydymffurfiad. Cynhwysir manylion ynghylch ein polisi cydymffurfio a gorfodi yn y ddolen isod:

<https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/complianceandenforcementpolicyfinalupdatedjan150.doc>

Byddwch gystal â chadarnhau gyda throad y post eich bod wedi derbyn y llythyr hwn a'i fod wedi'i drosglwyddo i'r person a fydd yn gyfrifol am ddarparu atebion inni i'r cwestiynau rydym wedi'u gofyn. Hefyd byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod inni pwy yw'r person hwnnw.

Fel a ddatgenir uchod y terfyn amser ar gyfer derbyn gwybodaeth yw Chwefror 10^{fed} 2017.

Yr eiddoch yn gywir



Rebecca Hilsenrath

CEO

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol ar gael ar wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com.

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion ynghylch cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cydraddoldeb, Cyngori a Chymorth, gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn Testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 19:00 (Llun i Wener)
10:00 i 14:00 (Sadwrn)

Post RHADBOST Equality Advisory Support Service FPN4431

Gellr cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu'ch adborth.

Fformatau amgens

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd fel ffeil Microsoft Word file ar www.equalityhumanrights.com. I gael gwybodaeth ar gyrchu cyhoeddiad y Comisiwn mewn fformat amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

© 2017 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Ebrill 2017

Gellir lawr lwytho'r cyhoeddiad hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd: Ebrill 2017



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission